## Myfyrdod Cynddilig

Un o'r beirdd Cymraeg a ffieiddiodd ryfel oedd yr athrylithgar T. Gwynn Jones (1871-1949). Bu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn siom enbyd iddo, a datblygodd yn ei syniadaeth yn heddychwr pybyr. Arhosai'r Parchedig E. Tegla Davies ar ei aelwyd ym mis Hydref 1917. Ac meddai Tegla: 'Mae'r hen ryfel 'ma wedi creu llawer o anffyddwyr'. Fe gafodd ateb cwbl annisgwyl ac a'i lloriodd yn llwyr gan Gwynn Jones:

'Ydy, ond wyddoch chi beth a wnaeth o i mi? Fy ngwneud yn Gristion. Roeddwn i'n meddwl bod dynoliaeth yn datblygu'n ara' a sicr, drwy addysg a datblygiad a gwareiddiad, i rywbeth niwlog a alwn ni yn Deyrnas Dduw. Heddiw 'rydw i'n gweld nad oes dim ond dau ddewis iddi – cyflawni hunanladdiad, fel mae hi'n gwneud neu ail-greadigaeth drwy'r Arglwydd Iesu Grist.'

Ac fe gafwyd campweithiau o'i ddwylo o'r darganfyddiad newydd hwn yn ei brofiad crefyddol. Cymerer i brofi'r pwynt y gerdd feistrolgar 'Cynddilig'. Yn fyr, dyma'r neges. Y mae rhyfel yn dinistrio'r wlad, yn ei rheibio'n ddidrugaredd, ac y mae dau ynfytyn yn lladd ei gilydd. Fi sydd yn eu galw yn ynfytyn, dynion ydynt i'r bardd. Gwelir dwy golomen yn codi o'r ddau gorff. Arwr y gerdd yw Cynddilig, brawd un o'r ddau a laddwyd. Tangnefeddwr ydyw fel ein Harglwydd Iesu Grist, un sy'n caru Duw a charu plant y byd. Bodlona dalu pris, sef aberthu ei einioes werthfawr ei hun, er mwyn achub caethferch rhag y bwystfilod a'r drwgweithredwyr, a gwelir tair colomen yn hedfan fel angylion yn yr awyr las uwchben. Tair colomen yn symbol perffaith, teimladwy o...

Cymod, Tangnefedd a Brawdgarwch.
Ond ni ddaeth y weledigaeth iddo
heb ddioddefaint drud.
A gwayw'i nwyd yn y gïau'n edwi,
ymgroesai, ac am ei euog rysedd,
ei ddialedd, ymgreiniodd Cynddilig,
yn y gwaed a thrwy'r rhedyn a'r gwellt,
drwy y drain a chwerwder ei drueni,
a baich ei bechod,
yn ei ing yr ymwingai
oni bu efô yn ei boen
fel marw ar gyfyl y meirwon,
y ddeugorff oedd agos
onid bod ynddo ef anadl –
pob deisyfiad fel pe bai wedi sefyll,
bod wedi peidio â byw...

Dyma ddarn sy'n dweud am yr ing a baich ei ofidiau. Cariad fel cariad Crist sydd gan Cynddilig, nid cariad sy'n mesur a phwyso, ond cariad sydd yn afradlon ac yn agored. Cariad Duw yn lledu ei gysgod amdanom ar faes y gad fel ar faes y Gymanfa. Mae'r colomennod sy'n hedfan uwchben dinistr y Somme a Bagdad yn cyhoeddi heb betruster eiliad fod y cariad nad oes terfyn arno yn gwbl anorchfygol.

Nid rhyfedd o gwbl fod y diweddar Barchedig O. M. Lloyd, Dolgellau (gŵr hynaws ei ysbryd oedd ef) yn sôn amdano yn dysgu cerddi T. Gwynn Jones ar ei gof. Dysgodd bob gair o'r campweithiau, sef 'Ymadawiad Arthur', 'Cynddilig', a rhannau helaeth o 'Gwlad y Bryniau'. Fel gweinidog ifanc yr Annibynwyr Cymraeg teithiai O. M. Lloyd ar hyd a lled Eifionydd i ddarlithio ar y testun, 'Gweithiau Gwynn Jones'. Mewn ysgrif yn y cylchgrawn byrhoedlog, *Y Llanw* dywed yn 1949: 'Anfodlon oeddwn ar glywed ei ddisgrifio fel bardd paganaidd. Barn gwbl arwynebol oedd honno, o gofio'i waith yn gyfan.'

Gwir y dywedodd, a chytunaf bob gair ag ef. Bardd gwir Gristnogol oedd T. Gwynn Jones.